# RYDYM YN RECRIWTIO

## YMUNWCH Â TÎM HAMDDEN SIR DDINBYCH CYF.

## CANOLFAN GREFFT RHUTHUN












# Swyddog Addysg

**Lleoliad:** Canolfan Grefft Rhuthun

**Cyflog:** £30,060 - £32,654 pro-rata
**Oriau:** 23 awr yr wythnos
**Contract:** Parhaol

**Dyddiad Cau:** 30.12.24
Dyddiad Cyfweld: 09.01.25

## Sut i wneud cais:

I wneud cais, ewch i www.denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/ a gwnewch gais ar-lein. Am ddulliau amgen o wneud cais, cysylltwch â'n Tîm Ein Pobl ar 01824 706194.

Dylech dderbyn e-bost yn awtomatig wrth gyflwyno'ch ffurflen gais, yn cadarnhau ein bod wedi'i dderbyn. Byddwn yn rhoi rhestr fer at ei gilydd ar gyfer cyfweliad yn fuan ar ôl i'r swydd gau, ac os ydych yn cael eich dewis ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost gyda manylion.

*This document is available in English*

# Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf. yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol a llawn cymhelliant sydd â diwylliant o ddarparu gwasanaeth perfformiad uchel a rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef cyfleusterau uchel iawn eu parch a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Rydym yn disgwyl i'n staff ymrwymo i;

- Ddarparu gwasanaeth o safon rhagorol bob amser
- Sicrhau eu datblygiad eu hunain a datblygiad ein busnes
- Gweithio'n hyblyg ar draws safleoedd lle bo angen
- Cefnogi gwaith tîm, cefnogi eu cydweithwyr a'n cwsmeriaid

Mae ein gweithlu yn hynod o bwysig i ni ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith a bywyd. Mae gan bawb sy'n gweithio i Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys aelodaeth campfa am bris gostyngol, cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol, hawl i wyliau blynyddol hael (gyda chyfle i brynu mwy) a chefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiant gyrfa a secondiadau.



# Amdanoch Chi

Yn y tudalennau nesaf fe welwch chi'r swydd ddisgrifiad llawn a manylion am yr unigolyn. Yn y ddogfen Manylion am yr Unigolyn, fe welwch chi ein bod yn disgwyl llawer gan yr unigolyn cywir, ond rydym ni'n gwybod bod hyn yn dod gydag amser. Mae yna lawer y gallwn ni ei ddarparu megis profiadau, datblygu sgiliau a hyd yn oed cymwysterau, felly mae gennym ni fwy o ddiddordeb dod i'ch adnabod chi fel unigolyn. Dyma'r hyn y mae gennym ddiddordeb ynddo. Canolfan Grefft Rhuthun yw prif ganolfan celfyddydau cymhwysol Cymru, mudiad wedi ei arwain gan weledigaeth sydd â rhaglen artistig sy'n cyflwyno'r celfyddydau cymhwysol gorau yng Nghymru, y DU a'r byd.

Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd ddeall ac uniaethu â'r weledigaeth artistig hon i sicrhau rhaglen addysgol eang o safon.

Mae dyletswyddau deiliad y swydd yn cynnwys darparu digwyddiadau unigol / lluosog ac weithiau digwyddiadau a phrosiectau cyd-ddibynnol, o fewn cyllideb a therfyn amser cytunedig. Mae hyn yn gofyn am ddull o weithio sy'n ddalgar, a threfnus iawn, er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cael eu darparu'n effeithiol. Mae angen cydbwyso hyn gyda dull cwrtais a sensitif o weithio gydag ystod eang ac amrywiol o unigolion, yn amrywio o artistiaid graddedig a'r sawl sy'n cychwyn gyrfa, i artistiaid pwysig a dylanwadol cymwys, gyda phroffil byd-eang; yn ogystal ag ystod eang ac amrywiol o unigolion, grwpiau a sefydliadau gydag ystod o oedrannau, megis grwpiau Rhiant/Plentyn, grwpiau o ysgolion/colegau, i grwpiau 60+ oed, yn ogystal â chynulleidfaoedd a grwpiau cymunedol megis GOGDdC, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a'r RNIB, ac ati.

Bydd ein Swyddog Addysg delfrydol yn rhywun â phrofiad blaenorol o gynllunio addysgol, cydlynu, cyflawni a gwaith cyllidebu mewn Canolfan Gelfyddydol.

Byddwch yn berson brwdfrydig iawn i weithio'n agos â Chyfarwyddwr y Ganolfan i sicrhau darpariaeth addysgol a deongliadol gwych sy'n cefnogi ac yn ategu'r rhaglen newidiol o arddangosfeydd o'r radd flaenaf.

Byddwch yn rhywun sy'n frwdfrydig am ehangu'r mynediad i'r celfyddydau cymhwysol - sy'n ymuno â ni wrth 'Ddathlu Crefftau a chelfyddyd creu', ac yn rhywun a fydd yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu cylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn sicrhau bod 'Y Celfyddydau' sy'n cael eu cyflwyno a'u profi yma yng Nghymru 'er budd i bawb'.

Os ydym ni newydd eich disgrifio chi i'r dim, yna fe fyddem ni wrth ein bodd yn eich cyfarfod chi. Cofiwch nodi hyn ar eich ffurflen gais er mwyn i ni eich gwahodd chi i gyfweliad.



# Disgrifiad Swydd

**Teitl y Swydd:** Swyddog Addysg
**Graddfa: 6**
**Cwmni: Hamdden Sir Ddinbych Cyf**
**Yn atebol i: Cyfarwyddwr**, Canolfan Grefft Rhuthun

## Pwrpas y Swydd:

Gweithio'n agos â Chyfarwyddwr Canolfan Grefft Rhuthun i sicrhau darpariaeth addysgol a deongliadol gwych sy'n cefnogi ac yn ategu'r rhaglen o arddangosfeydd celf gymhwysol gyfoes o'r radd flaenaf, yn unol â pholisïau, nodau a blaenoriaethau Canolfan Grefft Rhuthun.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyfarwyddwr i ddatblygu, cynllunio a darparu rhaglen o weithgareddau addysgol yn unol â'r gyllideb, amserlen a'r fanyleb y cytunwyd gan y Cyfarwyddwr, gan sicrhau bod y rhaglen yn cael ei datblygu'n briodol i gyflawni'r amcanion.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd ddatblygu dealltwriaeth o ofodau cyhoeddus Canolfan Grefft Rhuthun ac i gefnogi'r Cyfarwyddwr i wneud y mwyaf o'r gofodau hyn er dibenion y rhaglenni addysgol.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd ymgymryd â gwaith marchnata ac eirioli effeithiol ar gyfer gwaith addysgol a deongliadol Canolfan Grefft Rhuthun, mewn cytundeb â'r Cyfarwyddwr.

## Dylai deiliad y swydd gael:

- Ddealltwriaeth helaeth o addysg yng nghyd-destun sefydliad Celfyddydol, wedi ei gefnogi gan brofiad perthnasol yn gweithio gyda thîm addysgol mewn sefydliad Celfyddydol.
- Profiad o gyflawni prosiect, sgiliau cyfathrebu cyffredinol da a'r gallu i ymdrin â materion cyffredinol ac arbenigol a chydlynu timau prosiect bach a hyblyg.
- Gallu i ragweld a mynd i'r afael â newidiadau yn anghenion addysgol Canolfan Grefft Rhuthun, prosiectau unigol a'r cyd-destun addysgol allanol ehangach.
- Sgiliau a phrofiad i ddeall pwysigrwydd technolegau newydd i gyfathrebu gyda chwsmeriaid mewnol ac allanol, er mwyn sicrhau bod y cwmni yn arwain y ffordd gyda'u brand a phrofiad i gwsmeriaid.
- Lefel uchel o sgiliau cyfathrebu da, er mwyn cynnal perthynas waith dda pan fydd materion anodd a dadleuol yn cael eu trafod neu'u datrys.

## Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau:

Ymchwilio, cynllunio a chydlynu rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau addysgol ac ymgysylltiol sy'n cefnogi ac yn ategu rhaglen o arddangosfeydd celf gymhwysol o'r radd flaenaf, gan gynnwys gweithdai, artistiaid preswyl, sgyrsiau, darlithoedd, symposia a digwyddiadau eraill, ar y safle ac mewn canolfannau eraill, fel y nodwyd gan y Cyfarwyddwr.

Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Cadw golwg ar arferion addysgol y celfyddydau cymhwysol a datblygu dealltwriaeth o safle gwaith addysgol Canolfan Grefft Rhuthun o fewn agendâu addysg gelfyddydol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Rheoli a chydlynu cyfraniad cydweithwyr, artistiaid, gweithwyr llawrydd a chontractwyr, a bod yn brif bwynt cyswllt tîm Canolfan Grefft Rhuthun o ran materion addysgol ac ymgysylltu.
- Cadw golwg ar waith artistiaid preswyl a sicrhau bod yr holl anghenion preswyl yn cael eu cynllunio a'u diwallu yn effeithiol.
- Cadw cofnod llawn a chywir o'r rhaglen addysgol a sicrhau bod y cofnodion hynny ar gael i dîm Canolfan Grefft Rhuthun.
- Sefydlu a chydlynu systemau effeithiol ar gyfer dogfennaeth (e.e. ffotograffiaeth a ffilm) a gwerthuso (ansoddol a meintiol) gwaith addysgol y Ganolfan.
- Cynllunio a monitro cyllideb rhaglen addysgol gytbwys gyda'r Cyfarwyddwr.
- Gweithio'n agos ag aelodau uwch o'r tîm i sicrhau bod anfonebau a thaliadau'n cael eu gwneud yn brydlon a bod y cofnodion ariannol yn gyfredol.
- Cytuno yn flynyddol ar ganran incwm y rhaglen addysgol i dderbyn cyllid yn allanol ac i drefnu gweithgareddau codi arian drwy geisiadau grant, ac ati.
- Eirioli a marchnata'r rhaglen addysgol yn unol â brand ac arddull mewnol Canolfan Grefft Rhuthun – gan gynnwys cynhyrchu deunyddiau hyrwyddol a ffotograffiaeth o ansawdd uchel am ddigwyddiadau a fu a digwyddiadau ar y gweill ar gyfer budd-ddeiliaid presennol a budd-ddeiliaid i'w targedu, a gweithio gydag uwch aelodau o staff ar bresenoldeb gwe a chyfryngau cymdeithasol y rhaglen addysgol.
- Datblygu a chadw perthynas wych gydag ystod o fudd-ddeiliaid a rhwydweithiau sy'n addas i raglen addysgol Canolfan Grefft Rhuthun, gan gynnwys mynychu digwyddiadau allanol yn unol â chytundeb y Cyfarwyddwr.
- Hyrwyddo gwirfoddoli (mewnol ac allanol) ar gyfer ein rhaglen Arolygwr Oriel Gwirfoddol drwy ymgyrchoedd recriwtio a chyhoeddusrwydd. Recriwtio a chyfweld gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn gweddu'r swydd yn briodol ac wedi derbyn hyfforddiant. Cynnal gwiriadau cyn gwirfoddoli, gan gynnwys geirdaon a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fo'n briodol. Trefnu amserlenni a darparu cyfarfod sefydlu a hyfforddiant, yn ogystal â briff / pecynnau gwybodaeth ar gyfer arddangosfeydd. Sicrhau bod cefnogaeth a hyfforddiant priodol ar gyfer gwirfoddolwyr.

- Bod yn gyfrifol am gydymffurfiad darpariaeth rhaglen addysgol Canolfan Grefft Rhuthun â'r gofynion statudol a'r canllawiau perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Plant 1989 / 2004, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2017, Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (2002) ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall neu ofynion y Gweithgor Iechyd a Diogelwch.

- Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am reoli, gweithgarwch dyddiol a chynnal cyfleusterau addysgol a phreswyl y Ganolfan mewn modd effeithiol – mae hyn yn cynnwys llecynnau'r Ganolfan, offer, archebu deunyddiau gan sicrhau bod anghenion pob defnyddiwr yn cael eu diwallu'n effeithiol.

- Cydlynu'r gwaith o logi ystafelloedd dysgu Canolfan Grefft Rhuthun allan, gan gynnwys: cysylltu â llogwyr posib; cyflenwi deunyddiau cywir o ran y cyfleusterau a'r dewisiadau yn brydlon, cadw cofnod o'r archebion mewn dyddiadur a chadw unrhyw ohebiaeth a chofnodion perthnasol; cydlynu'r gwaith o drefnu'r ystafelloedd; cyfrifoldebau blaen y tŷ yn ystod digwyddiadau a gweithgarwch llogi; gweithio'n agos ag uwch aelodau o staff i werthuso'r digwyddiad ac i sicrhau bod anfonebau yn cael eu hanfon. Mae yswiriant adeilad ac anghenion diogelwch yn golygu bod angen cyswllt agos â'r Cyfarwyddwr ynglŷn â defnydd cyfleusterau Canolfan Grefft Rhuthun y tu allan i'r oriau arferol.

- Sicrhau a chydlynu'r trefniadau yswiriant priodol ar gyfer digwyddiadau a chyfleusterau sy'n cael eu defnyddio er dibenion addysgol

- Bydd gan ddeiliad y swydd hawl i lofnodi rhai o sieciau Canolfan Grefftau Rhuthun a defnyddio pro fforma safonol i gysylltu ag artistiaid ac i archebu deunyddiau ac adnoddau eraill er mwyn darparu'r rhaglen, drwy drafod a chyda caniatâd y Cyfarwyddwr.

## Goruchwylio / Rheoli Pobl

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am gydlynu artistiaid a hwyluswyr addysgol sydd ar gontract i gyflawni'r rhaglen o weithgareddau addysgol.

## Amodau Gwaith Arbennig

Rhaid i ddeiliad y swydd fedru teithio ledled Sir Ddinbych a thelir lwfans am hyn, ond mae'r trefniant hwnnw dan adolygiad ar hyn o bryd.

Er mai swydd 23 awr yr wythnos yw hon, mae angen agwedd hyblyg tuag at yr oriau gwaith craidd. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'r oriau sydd eu hangen ar gyfer y swydd. Oherwydd bod y ganolfan ar agor chwe diwrnod yr wythnos ac oherwydd y gweithgareddau addysgiadol – bydd patrwm gwaith y swydd yn amrywiol.Cynhelir rhai digwyddiadau / gweithgareddau addysgiadol ar benwythnosau a'r tu allan i oriau agor cyhoeddus arferol y ganolfan.

## Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i bob gweithiwr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel safonol; 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol a thystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU. Mae angen gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## Datganiad Diogelu

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac oedolion, ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, a bydd yn gwneud popeth a fedr yn ei fusnes i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur dan orfod, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu'n fater i bawb ac mae'n rhaid i holl weithwyr Hamdden Sir Ddinbych weithio'n unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer Diogelu Oedolion a Phlant; mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon a gyfyd wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau a bod yn effro i arwyddion o gamfanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r sefydliad allu gweithredu'n ddi-oed pan fydd yn dod ar draws achos o gam-fanteisio.

## Gweledigaeth / Cyd-destun

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi cael ei drawsnewid dros y degawd diwethaf ac mae bellach yn adnabyddus am ddarpariaeth o safon uchel ledled Sir Ddinbych; gan gynnig arlwy Hamdden newydd, unigryw, fforddiadwy a masnachol gynaliadwy; gan wneud cyfraniad sylweddol at wella iechyd ein trigolion a darparu ffyniant economaidd. Llwyddwyd i gyflawni hyn oherwydd y gweithlu llawn cymhelliant sydd â diwylliant gwych, sy'n gweithio i werthoedd cryf.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd arddangos a hyrwyddo gwerthoedd craidd ein cwmni:

- Byddwn yn glynu at ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom fel eu cyflogwr i wneud yr hyn sy'n iawn bob amser, a byddwn yn eu gwneud yn falch.
- Ni fyddwn yn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn cryfhau ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.

Mae gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf dair elfen bwysig ond eglur, sy'n nodi a dylanwadu'r ffordd rydym yn gweithio, a pham crëwyd y Cwmni. Caiff y Cwmni ei gydnabod am ei gyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau, y ffordd mae'n gweithio â'i bartneriaid a busnesau eraill, ac yn bwysicach fyth, y ffordd y mae'r Cwmni yn gofalu am ei weithlu a'i ddatblygu - mae'r Cwmni'n credu'n gryf mewn agwedd 'un tîm - un cyfrif banc'.

# Manylion am yr Unigolyn

Mae'r Fanyleb yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Gwyddom mai dim ond gyda'r profiadau cywir y daw rhai o'r meysydd hyn, felly er bod angen rhywun sy'n bodloni'r meini prawf cymwysterau arnom, rydym yn hapus i ddarparu'r gweddill i'r person cywir. Gwelir y dudalen 'Amdanoch Chi' i weld pwy yw'r person cywir yn ein barn ni. Os oes gennych chi'r meini prawf hanfodol isod eisoes, yna bonws yn unig yw hynny!

Teitl y Swydd: Swyddog Addysg

Cwmni : Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Graddfa: 5

## Creadigrwydd ac Arloesedd

- Bod yn frwdfrydig am ehangu'r mynediad i'r Celfyddydau Cymhwysol (Crefftau) - er budd pawb.
- Gallu darparu atebion arloesol a chreadigol wrth 'ddathlu Crefftau a chelfyddyd creu' - i lywio gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth a helpu i drawsnewid y ffordd rydym yn gwneud busnes ac yn gwasanaethu ein cwsmeriaid, wrth i ni ddod yn wasanaeth mwy hunangynhaliol yn y dyfodol.
- Bod â'r gallu i strwythuro materion ymgysylltu/cyfranogi a dod i benderfyniadau cytbwys a gwybodus.
- Y gallu a'r weledigaeth i ragweld a dylanwadu ar newid mewn ymateb i anghenion a nodwyd ac yn meddu ar sgiliau a galluoedd i reoli materion cymhleth a galwadau niferus mewn amgylchedd dynamig.

## Cymwysterau, Profiad a Gwybodaeth

- Addysg i lefel gradd - mae cymhwyster proffesiynol yn y maes addysgu'r celfyddydau'n ddymunol.
- Profiad o weithio mewn tîm addysgiadol mewn sefydliad celfyddydol
- Dealltwriaeth o addysg yng nghyd-destun sefydliad celfyddydol
- Mae dealltwriaeth o gelfyddydau gweledol - gyda dealltwriaeth o gelfyddydau Cymhwysol (Crefftau) yn ddymunol

## Cymwysterau, Profiad a Gwybodaeth

- Profiad o bennu a monitro cyllidebau
- Profiad o waith addysgiadol celfyddydol prosiect a phreswyl
- Gwybodaeth eang o systemau Office, TG a thechnoleg gyfrifiadurol gan gynnwys y cyfryngau digidol
- Sgiliau cyflwyno ac ysgrifenedig rhagorol
- Dealltwriaeth o eiriolaeth a marchnata
- Dealltwriaeth o faterion iechyd a diogelwch ac Asesiadau Risg, ac ati.
- Gallu cyflwyno, darparu a chefnogi newidiadau yn ôl yr angen. Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau, drwy feddwl am syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau.
- Profiad o ddefnyddio, a gwerthfawrogiad o effaith a pherthnasedd technoleg ddigidol i ddatrysiadau busnes, cynllunio, rheoli a darpariaeth gwasanaeth.

## Rhinweddau Personol

- Cyfrannwr tîm da, ond gall gynnal gwaith eu gwaith eu hunain ar sail hunan-gychwynnol
- Yn drefnus iawn, gyda'r gallu i gynllunio a blaenoriaethu cyflawniad llwyth gwaith eu hunain
- Yn parchu ac yn gallu cadw cyfrinachedd bob amser.
- Sgiliau cyfathrebu / cyflwyno rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig. Sgiliau rhyngbersonol lefel uchel.
- Creadigol ac Arloesol
- Sgiliau rheoli prosiect cadarn.
- Dangos ymrwymiad cryf i wasanaeth cwsmeriaid.
- Ymdeimlad cryf o atebolrwydd eich hunan ac eraill.
- Dangos gwytnwch ac ymwrthedd dan bwysau.
- Yn hyblyg ac yn bragmatig yn wyneb blaenoriaethau a llwythi gwaith sy'n newid.
- Yn barod i weithio patrwm gweithio'n hyblyg – gan weithio y tu allan i oriau arferol ac ar y penwythnos pan fydd angen
- Empathi gyda'r Gymraeg a diwylliant Cymru - mae bod yn rhugl yn y Gymraeg yn ddymunol.



# Diolch am eich diddordeb

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch Philip Hughes, Cyfarwyddwr Canolfan Grefft Rhuthun, ar 01824 706006 neu Philip.Hughes@denbighshireleisure.co.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

www.hamddensirddinbych.co.uk

Hamdden Sir Ddinbych Cyf

@HamddenSirDdinbych